Duw Trugaredd

Adnodau agoriadol:

"Trugarog a graslon yw'r Arglwydd, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb..... Fel y mae tad yn tosturio wrth ei blant, felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni." *Salm 103: 8, 13.*

"Gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad tuag atom mor fawr, fe'n gwnaeth ni, ni oedd feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ." *Effesiaid 2: 4*

Geiriau agoriadol:

Trugaredd yw'r wedd honno ar y cariad dwyfol sy'n ymateb i'n gwendid a'n pechod ni. Er i ni syrthio'n fyr o ofynion ac ewyllys Duw ar ein cyfer, nid ein collfarnu na'n cosbi a wna, ond ein cofleidio yn ei drugaredd ac estyn i ni faddeuant.

Mewn distawrwydd agorwch eich meddwl a'ch calon o flaen Duw, cyffeswch y beiau a'r diffygion sy'n eich blino, a rhannwch ag ef eich teimladau o fethiant ac euogrwydd heb gelu dim oddi wrtho.....

Dywedwch yn dawel:

O tyred, Iôr tragwyddol,
Mae ynot Ti dy hun
Fwy moroedd o drugaredd
Nag a feddyliodd dyn:
Os deui at bechadur,
A'i godi ef i'r lan,
Ei galon, gaiff a'i dafod
Dy ganmol yn y man.

Williams, Pantycelyn.

Gweddi:

Dad grasol,

pwyswn ar dy drugaredd ac agorwn ein calonnau
yn edifeiriol o'th flaen gan wybod nad oes dim yn
guddiedig oddi wrthyt. Cydnabyddwn i ni bechu yn dy
erbyn ar feddwl, gair a gweithred, tristáu dy Lân Ysbryd,
peri gofid a loes i eraill a dwyn gwarth ar ein tystiolaeth:
Arglwydd trugarha.

Cydnabyddwn
y drwg a wnaethom,
y daioni nas gwnaethom,
y beiau bwriadol a gyflawnwyd gennym
a'r niwed a'r poen a achoswyd gan ein
hymddygiad gwael ac anystyriol:
Arglwydd trugarha.

Cyflwynwn i ti mewn gweddi
y rhai y buom yn ddig a diamynedd wrthynt,
y rhai y buom yn siarad yn faleisus amdanynt,
y rhai y buom yn ddilornus
ac eiddigeddus ohonynt.
Gwna ni'n barod i roi a derbyn maddeuant
a bod yn gyfryngau ac yn adlewyrchiad
o'th drugaredd di:
Arglwydd trugarha.

Arglwydd Iesu Grist,
Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd,
tyrd i ddileu ein pechodau ni,
i'n rhyddhau o'n heuogrwydd,
i adfer ein hurddas,
ac i estyn i ni gyfle newydd, i'th wasanaethu. Amen

Emyn: 321 Caneuon Ffydd.

Darllen: Salm 51: 1 – 15.

Llais 1

Tybed oes gan yr Eglwys Gristnogol obsesiwn efo pechod? Gwrandewch ar eiriau ein hemynau, ein gweddïau a'n pregethau a bydd 'pechod' yn sicr o dreiddio i mewn fwy nag unwaith. Fe ddywedodd rhywun fod cerdded i mewn i eglwys neu gapel yn union fel cerdded i mewn i garchar neu ward seiciatrig mewn ysbyty. Paul sy'n cael y bai gan rai gan nad oedd wedi maddau iddo'i hun am erlidio'r Cristnogion cynnar a'r hyn wnaeth oedd cymhwyso yr euogrwydd hwn yn ei ddiwinyddiaeth. Ond gwneud cam â Paul y mae'r rhai sy'n ei gyhuddo fel hyn. Roedd proffwydi'r Hen Destament yn cyhoeddi mai'r hyn oedd yn llygru'r gymdeithas oedd pechod dyn. Mae hyd yn oed dysgeidiaeth Iesu wedi ei anelu at bechaduriaid – chwilio am y colledig a'r pechadurus oedd Iesu. Felly, os ydyn ni'n credu fod yr eglwys yn gwirioni efo pechod, y ffaith syml yw, fod y Beibl hefyd. Cofnodi profiadau pobl mae'r Beibl ac mae pechod yn rhan greiddiol o'r profiad o fod yn ddynol.

Os oes unrhyw amheuaeth am gynnwys y frawddeg olaf, darllenwch y papurau, edrychwch ar y newyddion. Os ydych chi'n dal i amau, ewch am dro ar hyd strydoedd ein pentrefi a'n dinasoedd.

Llais 2

Yn y Salm a ddarllenwyd, cyffes Dafydd Frenin ar ôl ei odineb gyda Bathseba yw'r geiriau – er bod esbonwyr erbyn hyn yn gwrthod y dystiolaeth hon. Erbyn hyn dehonglir y Salm ar gefndir cwltig. Awgrymir mai adlais o'r ddefod o buro a sancteiddio sydd yn y gair 'isop' – "Pura fi ag isop fel y byddaf lân; golch fi fel y byddaf wynnach nag eira" adn 7. Os mai Salm wedi ei chyfansoddi ar gyfer defodau crefyddol yw hon, eto i gyd ni ddylid caniatáu i ddehongliad o'r fath dynnu oddi wrth y Salm fel mynegiant o brofiad unigolyn ar ôl iddo sylweddoli ei bechod. Unig sail ei weddi yw trugaredd Duw. Maddeuant ar dri gwastad yw ei ddyhead: (a) dilea fy nhroseddau, adn 1; (b) golch fi'n lân o'm drygioni, adn 2 a (c) glanha fi o'm pechod, adn 2., dileu, golchi a glanhau, tair elfen bwysig yn y glanhad.

Llais 3

Yn adnodau 6–12, gweddi am lanhad a geir. Mae awdur y Salm yn "dymuno gwirionedd oddi mewn", sef yr hyn yr hoffai Duw i ddyn fod. Mae'r cyfeiriad at buro â'r isop yn un diddorol. Hen arferiad oedd gwasgaru dŵr neu waed yn aberth dros yr edifeiriol gyda brigyn o'r pren isop ond ymhen amser daeth y pren ei hun yn arwydd o lanhad a phurdeb. Cawn enghraifft o hyn yn llyfr Lefiticus:

".....bydd yr offeiriad yn gorchymyn dod â dau aderyn glân yn fyw, pren cedrwydd, edau ysgarlad ac isop ar ran yr un a lanheir. Yna bydd yr offeiriad yn gorchymyn lladd un o'r adar uwchben dŵr croyw mewn llestr pridd. Wedyn bydd yn cymryd yr aderyn byw ac yn ei drochi ef, ynghyd â'r pren cedrwydd, yr edau ysgarlad a'r isop, yng ngwaed yr aderyn a laddwyd uwchben y dŵr croyw ac yn ei daenellu seithwaith dros yr un a lanheir o'r haint." *Lefiticus 14: 4 – 7.*

Ond yn yr adnod hon mae'r Salmydd yn gofyn am fwy na maddeuant; mae'n gofyn am gael ei wneud yn greadigaeth newydd gyda chalon lân ac ysbryd newydd. Heb y trawsnewidiad hwn ni cheir ond ailadrodd ar bechodau'r gorffennol. Er mwyn ei gadw rhag y pechodau hyn mae'n rhaid iddo wrth yr ysbryd sanctaidd, sef presenoldeb Duw ei hun yn ei fywyd a hynny yn ei dro yn creu ynddo ysbryd ufudd.

Llais 4

Yn niweddglo'r Salm mae'r edifeiriol yn troi i addunedu i Dduw y bydd yn dysgu ffordd newydd i droseddwyr eraill. Mae'n awyddus i eraill deimlo presenoldeb a maddeuant Duw yn llenwi eu bywydau. Ceir awgrym cryf yn yr adnodau hyn na all yr edifeiriol fodloni ar dderbyn maddeuant iddo'i hun ond bydd yn rhaid iddo ei gyflwyno i eraill a thystio ger eu bron. Oni cheir hefyd, yn yr adran hon, gondemniad ar y syniad o aberthu? Gwyddai awdur y Salm mai'r arfer oedd cadarnhau galarnad â gweddi ag aberth i Dduw. Daw hyn yn glir yn Salm 54:

"Aberthaf yn ewyllysgar i ti;
clodforaf dy enw, O Arglwydd,
oherwydd da yw;
oherwydd gwaredodd fi o bob cyfyngder,
a gwneud imi orfoleddu dros fy ngelynion."

Salm 54: 6 – 7.

Ond mae awdur Salm 51 yn sylweddoli, fodd bynnag, nad dyna yw dymuniad Duw, ond yn hytrach gweld gwir edifeirwch yng nghalon dyn. Onid oes yma gondemniad ar aberthu? Gellir crynhoi trwy ddweud fod lle i aberthu ond nid ar draul edifeirwch a chyfiawnder. Yr unig ffordd i gymeradwyo aberth oedd ei fod yn fynegiant o ysbryd edifeiriol dyn a bod dyn yn edifar am ei bechodau a'i droseddau yn erbyn Duw a dyn.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Emyn: 191 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Arglwydd,
mae'r syniad o faddau
yn rhywbeth gwerth chweil.
Maddau i aelodau o'r teulu,
maddau i ffrindiau,
maddau i'r cymdogion,
maddau i'n gelynion
hyd yn oed.
Mewn gair, bob tro mae rhywun
yn troseddu yn ein herbyn,
dyna ddod at ein gilydd
a cheisio cymodi.
Ardderchog.
Bob dim yn iawn.
Ond mae 'na faen tramgwydd,
Mae 'na broblem, fel byddwn ni'n dweud.
Mor hawdd ydi sôn amdano
wrth eraill,
mewn oedfa fel hyn.
Ond pan ydyn ni'n dod wyneb yn wyneb,
pan ydyn ni wedi'n brifo,
wedi'n llorio,
a'r 'fi – fawr'

wedi'i sigo.
R'adeg hynny,
Rydyn ni wedi anghofio am faddeuant.
Eisiau taro'n ôl.
Eisiau iddo wybod beth y mae wedi'i wneud,
pa mor ddyfn mae wedi'n llorio.
Rydyn ni eisiau iddo yntau ddioddef
a theimlo'r boen.
Boed iddo yntau
gael ei ddryllio.
Mor hawdd ydi dweud 'Maddau'.'

Ac eto, Arglwydd, yn ei hymwneud â thi,
mae pethau'n wahanol.
Ar ôl i ni wneud camgymeriad,
y peth nesaf wnawn i ydi troi atat ti.
Mae mor naturiol troi atat ti
i ofyn am dy faddeuant.
Ac mor sicr ydyn ni
o'th gariad a'th faddeuant.
A dydyn ni ddim yn meddwl
ryw lawer
am y boen
yr wyt ti wedi mynd drwyddi.

Cwestiwn, Arglwydd.
Ydio yn dy frifo di
i faddau i ni?

Mae hoelion, Calfaria
y goron ddrain,
y cernodio
a'r fflangellu
yn amlwg.
Ond tybed beth oedd yr artaith fwyaf?
Yr artaith

o gael dy wrthod,
dy gasáu
a cheisio maddau.

Arglwydd,
dangos yn fwy eglur i ni
y boen rydyn ni yn ei achosi.
Helpa ni i edrych ar
ein teulu,
ein ffrindiau,
ein cymdogion,
ein gelynion
mewn gwedd newydd.

Rho i ni'r
dewrder a'r cariad
i dderbyn y boen
o faddau. Amen.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrio:

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Emyn: 284 Caneuon Ffydd

Yn hanes Corrie Ten Boom cawn enghraifft odidog o wraig yn maddau i'r gwarchodwr yng ngharchar Ravensbruck.

"Mae 'na le i ryw ugain arall," gwaeddodd un o'r gwarchodwyr. Dyma ei gyd-warchodwyr yn gwthio ugain o wragedd i grombil y wagen. Yn eu plith roedd dwy chwaer – Corrie a Betsie. Roedden nhw ar eu ffordd i'r carchar. Roedd wyth deg ohonyn nhw yn y wagen a oedd yn cael ei thynnu gan drên. Am bedwar diwrnod bu'r trên yn araf bwffian trwy'r wlad. Yna, dyma gyrraedd pen y daith, sef carchar Ravensbruck. Gwyddai'r ddwy chwaer na fydden nhw byth yn cael dod allan o'r carchar hwn yn fyw.

Ar ôl mynd i mewn drwy'r giatiau haearn, bu'n rhaid i'r merched gymryd cawod. Roedd hyn yn golygu tynnu eu dillad o flaen y gwarchodwyr. Ond roedd gan Corrie rhywbeth i'w guddio. Beibl a moddion ar gyfer ei chwaer. Beth allai hi ei wneud?

"Mae'n rhaid i mi fynd i'r toiled," meddai wrth un o'r gwarchodwyr. "Gwnewch yn y dreiniau yn fan'na," oedd yr ateb pendant yn ôl. Ar ei ffordd i gornel y gawodfa fe welodd hi ddwy fainc ar bennau'i gilydd. "Dyna le i guddio'r Beibl a'r moddion." Ac felly y bu. Ar ôl ymolchi yn y gawod, aeth i chwilio am y Beibl a'r moddion a'u cuddio unwaith eto o dan ei dillad.

Ond beth oedd yn digwydd yn awr? Roedd y gwarchodwyr yn archwilio pob un o'r merched ar eu ffordd o'r gawod. "Maen nhw'n siŵr o weld y Beibl y tro hwn," meddai wrthi'i hun. Dechreuodd weddïo tra oedd yn sefyll yn y gynffon o ferched oedd yn disgwyl i gael eu harchwilio.

Roedd hi'n gwybod bod Duw yn barod wedi ateb ei gweddïau. Do, fe gafodd hi le i guddio'r Beibl a'r moddion. Roedd hi'n gwybod y byddai Duw'n helpu'r eilwaith.

Ond fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn. Fe gafodd y wraig oedd yn sefyll o'i blaen ei harchwilio'n drylwyr. Corrie oedd y nesaf. Ond am ryw reswm wnaeth y gwarchodwyr ddim cymryd fawr o sylw ohoni. Fe'i hanwybyddodd yn llwyr. Aeth yn syth at Betsie a oedd yn sefyll y tu ôl iddi.

Digwyddodd yr un peth yn union wrth iddyn nhw adael yr adeilad. Pan ddaeth y gwarchodwr ar draws Corrie, dywedodd, "Ymlaen, brysiwch, ymlaen â chi," heb ei harchwilio o gwbl. Gwthiodd hi allan o'r adeilad a hithau â'i Beibl o dan ei dillad. Bu cryn ddefnydd ar y Beibl ar ôl y diwrnod hwnnw. Bob bore byddai Corrie yn darllen y Beibl i'w chyd-garcharorion. Fe fydden nhw hefyd yn gweddïo'n ddistaw bach ac yn cydganu emynau yn ddistaw bach.

Ond beth petai un o'r gwarchodwyr yn dod i mewn i'r ystafell? Byddai'n sicr o ddwyn y Beibl. Ond ddaeth yr un gwarchodwr i mewn o gwbl. Ymhellach ymlaen daethpwyd i wybod pam. Roedd y rhan yma o'r carchar yn llawn chwain. Doedd y gwarchodwyr ddim eisiau chwain ar eu dillad. Felly, yr unig beth i'w wneud oedd cadw draw. Credai Corrie fod pob chwannen yn wyrth fechan gan Dduw.

Ar ôl misoedd yn y carchar, bu farw Betsie. Ac ymhen tridiau ar ôl ei marwolaeth cafodd Corrie ei galw i'r swyddfa. "Mae'n rhaid eu bod wedi darganfod y Beibl," meddai wrthi'i hun.

Cafodd ddarn o bapur ac arno'r geiriau "Rhyddhawyd". Roedd hi'n mynd i adael y carchar. Roedd hi wedi gwirioni'i phen. Ond pam? Fe ddarganfuwyd mai camgymeriad oedd y cyfan. Ond roedd Corrie ymhell, bell i ffwrdd erbyn hynny.

Penderfynodd roi ei bywyd i Dduw. Un noson, mewn eglwys yn yr Almaen, ar ôl iddi orffen siarad â'r gynulleidfa, daeth dyn ati i ysgwyd ei llaw. Pwy oedd o tybed? Ef oedd y gwarchodwr yn y carchar yn Ravensbruck. Cofiodd Corrie am ei greulondeb.

"Fedra i ddim maddau iddo," meddai. Ond clywodd lais Duw. Ysgydwodd ei law a thrwy hynny maddeuodd i'r gwarchodwr. A dyna fu hanes Corrie am weddill ei hoes – dysgu pobl i faddau i'w gilydd. Bu farw yn 1983 yn 91 oed.

Cwestiynau i'w trafod:

Pa mor hawdd ydi maddau i'n gilydd? Ydych chi'n ei chael hi'n anodd i faddau? Fedrwch chi feddwl am rywun na allwch faddau iddo/iddi? Pam?

Mae gwrthod maddau yn gallu'n parlysu a'n gwneud yn wael yn feddyliol, yn gorfforol ac yn ysbrydol. Pa mor wir ydi hyn?

Beth am ddysgeidiaeth Salm 51 sy'n ein hannog, nid yn unig i ofyn am faddeuant ond hefyd i'n trawsnewid a'n gwneud yn greaduriaid newydd gyda chalon lân ac ysbryd newydd? Trafodwch y syniad o fynd i'r gyffesgell i dderbyn maddeuant am ein pechodau.

Oes yna bris i'w dalu pan fo unigolyn yn maddau i eraill? Beth yw'r gost? Beth am y gost a'r pris y mae Duw yn ei dalu wrth faddau i ni?

'Pechod yn ei hanfod yw cefnu ar Dduw' (Martin Luther). Pa mor wir yw hyn? Beth yw ystyr 'cefnu' yn y cyd-destun hwn?

Gweddi:

Maddau i ni, O Dduw,
am fethu maddau
i'n cyd-ddynion,
am fethu a rhannu i eraill
y newyddion da am dy faddeuant di,
ac am wrthod
dy faddeuant a'th gariad di. Amen.

Emyn: 216. Caneuon Ffydd

Myfyrdod byr:

Amod maddeuant yw edifeirwch, sy'n golygu ein bod yn troi oddi wrth yr hunan ac at Dduw ac at bwy bynnag yr ydym wedi troseddu yn ei erbyn. Y prawf o fod wedi derbyn maddeuant yw fod ysbryd maddeugar yn perthyn i ni a'n bod yn caru eraill.

Y Fendith:

Dysg ni, Arglwydd
i faddau
ac i dderbyn maddeuant,
dy faddeuant di
a maddeuant dy bobl. Amen.